

Aelodau Pwyllgor Gwirfoddol

PECYN GWYBODAETH

.....

*“Darparu gwasanaethau
rhagorol sy’n cefnogi
pobl i fyw yn ôl eu
dewis”*

.....

cefnogaeth a mwy • support and more
Gorwel

Prif Weithgareddau

Gwasanaeth o fewn Grwp Cynefin yw Gorwel a sefydlwyd yn 2006 er mwyn darparu cefnogaeth i bobl fregus iawn. Rydym yn darparu ystod o wasanaethau rhagorol i gefnogi pobl fregus yng ngogledd Cymru. Byddwn yn cynnig gwasanaethau lleol, dibynadwy sy'n gweithio mewn modd hyblyg, agos atoch ac arloesol i gwrdd ag anghenion unigolion a theuluoedd.

Ein Gwledigaeth

- Byddwn yn darparu gwasanaethau dwyieithog o ansawdd uchel a gaiff effaith bositif ar fywydau'r bobl rydym yn eu cefnogi
- Byddwn yn parhau i ddatblygu a darparu ystod o wasanaethau arloesol a holistig ar draws Gogledd Cymru
- Bydd ymddygiad y staff a'r pwyllgor yn adlewyrchu ein gwerthoedd

Ein Gwerthoedd

- Parhau i wella ein safonau a datblgu partneriaethau a chyfleoedd newydd
- Bod yn atebol i'n defnyddwyr gwasanaeth
- Dangos parch ym mhob agwedd o'n gwaith
- Ymrwymiad i ddatblygu staff drwy hyfforddiant a chefnogaeth effeithiol a chydabod gwerth pawb
- Hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth
- Ymfalchio yn yr iaith Gymraeg

Pwyllgor

Cyfarfodydd

Cynhelir pedwar cyfarfod y flwyddyn. Cynhelir y cyfarfodydd trwy gyfrwng yr iaith Gymraeg. Bydd cyfleusterau cyfieithu ar y pryd a chyfieithiad Saesneg o'r agenda a'r adroddiad yn cael eu darparu,. Mae croeso i aelodau gyfrannu yn Gymraeg neu Saesneg. Telir costau teithio / costau gwarchod plant i'r aelodau fynychu unrhyw gyfarfodydd.

Ymrwymiad Amser a Chyfrifoldebau Ychwanegol

Yn arferol, bydd hyn yn cyfateb i 8-10 diwrnod y flwyddyn, fel arfer cyfarfodydd yn ystod y dydd ac oddeutu dau 'Ddiwrnod i Feddwl' y flwyddyn, ynghyd â hyfforddiant achlysurol, cysylltiadau cyhoeddus neu ddigwyddiadau eraill.

Aelodaeth

Bydd gan y Pwyllgor hyd at wyth aelod, sef:

- Uchafswm o 3 aelod o Fwrdd Rheoli Grwp Cynefin
- Dim mwy na 5 aelod annibynnol (cyfetholedig)

Caniateir i aelodau wasanaethu ar y Pwyllgor am uchafswm cyfnod o 9 mlynedd (tri thymor).



Cylch Gorchwyl y Pwyllgor

- i Argymhell Cynllun Busnes Gorwel i'r Bwrdd Rheoli yn flynyddol
- ii Cymeradwyo Cynllun Gweithredol blynyddol Gorwel
- iii Cymeradwyo Cofrestr Risg Gorwel yn flynyddol a'i adolygu dwy waith y flwyddyn
- iv Cymeradwyo modelau gwasanaeth yn cynnwys strwythur staffio gweithredol Gorwel
- v Cytuno ar delerau ac amodau gwaith ar gyfer staff Gorwel .
- vi Gwerthuso a phenderfynu ar gyfleoedd i ddatblygu gwasanaethau Gorwel
- vii Craffu a monitro cyfrifon rheoli chwarterol Gorwel
- viii Cymeradwyo polisiau gweithredol y gwasanaeth
- ix Derbyn adroddiadau archwiliad mewnol Gorwel ac adolygu cynnydd yn erbyn yr argymhellion
- x Monitro cynnydd yn erbyn y Cynllun Gweithredol pob chwarter
- xi Sefydlu fframwaith mesur perfformiad yn cynnwys gosod targedau blynyddol
- xii Monitro a gwerthuso dangosyddion perfformiad chwarterol
- xiii Adolygu canlyniadau cwynion swyddogol





Grŵp Cynefin

Mwy na thai • More than housing